LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

CANLLAW I ATHRAWON

# Dewiswch BARCIO A CHERDDED yn lle GYRRU

## Canllaw ar sefydlu cynllun Parcio a Cherdded yn eich ysgol

Dysgwch ragor yn
LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARKANDSTRIDE







# Beth yw PARCIO a CHERDDED?

**Mae Parcio a Cherdded yn helpu mwy o ddisgyblion i fwynhau manteision cerdded i'r ysgol.**

**Os na all teuluoedd gerdded yr holl ffordd i'r ysgol, anogwch nhw i barcio deg munud i ffwrdd a cherdded/troelli gweddill eu siwrnai. Os ydyn nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, awgrymwch eu bod nhw'n dod oddi ar y bws/trên un neu ddau safle yn gynt a cherdded/troelli gweddill y ffordd.**

Gall eich ysgol sefydlu cynllun Parcio a Cherdded drwy nodi ardal addas y gall rhieni/gofalwyr barcio ynddi, heb fod yn rhy bell o'r ysgol (e.e. busnes lleol neu faes parcio cymunedol) a chael caniatâd i'w defnyddio.

Os nad oes gan eich ysgol opsiwn ar gyfer cynllun Parcio a Cherdded yna gallech chi, yn lle hynny, annog parcio ystyriol a diogel ar ffyrdd sydd wedi'u lleoli taith cerdded 10 munud o'r ysgol.



## Ydych chi'n cymryd rhan yn WOW – yr her cerdded i'r ysgol?

Cofiwch fod teithiau Parcio a Cherdded yn cyfrif tuag at ennill bathodyn WOW!



# AWGRYMIADAU ar sefydlu eich cynllun PARCIO a CHERDDED



## 1. Mapiwch o le y mae teuluoedd yn teithio

Mapiwch godau post cartref disgyblion i ddarganfod y llwybrau mwyaf cyffredin i'r ysgol, neu edrychwch ar ddalgylch yr ysgol. Gallwch chi wneud hyn yn weithgaredd ystafell ddosbarth llawn hwyl gyda'r disgyblion. I'ch helpu gyda'r gweithgaredd hwn, teipiwch 'plot postcode on a map' yn eich peiriant chwilio i ddod o hyd i wefannau a all helpu gyda hyn.

## 2. Dewis lleoliad parcio

Meddyliwch am feysydd parcio sy'n debygol o fod yn llai prysur yn ystod amseroedd cychwyn a gorffen ysgol, e.e. neuaddau tref, eglwysi, tafarndai a chanolfannau cymunedol. Yn aml, mae gan archfarchnadoedd a pharciau manwerthu feysydd parcio mawr gyda llawer o le ac maen nhw'n awyddus i gefnogi eu cymuned leol hefyd. Os nad oes yr un o'r opsiynau hyn ar gael, ymchwiliwch i weld a allai ffyrdd lleol alluogi rhieni i barcio a cherdded yn ddiogel ac yn ystyriol heb achosi aflonyddwch.





## 3. Sicrhewch ganiatâd

Unwaith y byddwch chi wedi dewis y lleoliad, bydd angen i chi gysylltu â'r perchennog neu'r rheolwr er mwyn gofyn am ganiatâd i'w ddefnyddio. Mae gan Living Streets lythyr templed defnyddiol y gallwch chi ei weld ar dab **ADNODDAU** Traciwr Teithio WOW neu yn:

**livingstreets.org.uk/wowlaunch**

Gwiriwch gyda pherchennog y maes parcio i sicrhau bod gan ei yswiriant gymal atebolrwydd cyhoeddus rhag ofn i rywun gael ei anafu wrth ddefnyddio'r safle. Bydd meysydd parcio sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan aelodau'r cyhoedd wedi'u cynnwys fel arfer.

## 4. Lledaenwch y gair

Beth am gynnwys erthygl yng nghylchlythyr yr ysgol neu anfon llythyr adref yn egluro sut mae Parcio a Cherdded yn gweithio? Cofiwch gynnwys map i ddangos lleoliad y safle Parcio a Cherdded swyddogol. Gall disgyblion hefyd helpu drwy ddylunio posteri, arwyddion neu faneri sy'n hyrwyddo'r cynllun a theithio llesol i drigolion lleol, neu drwy ysgrifennu llythyrau at eu rhieni/gofalwyr yn eu hannog i gymryd rhan.

## 5. Mynnwch gefnogaeth gan y cyngor lleol

Bydd cael eich cynghorwyr a'ch cyngor lleol yn rhan o'r cynllun yn ei helpu i redeg yn fwy llyfn. Efallai y byddan nhw hefyd yn gallu rhoi cymorth gwerthfawr fel cyfyngu parcio o amgylch gatiau'r ysgol, ymweliadau gan gynghorwyr a chyhoeddusrwydd.





## PARCIO a CHERDDED ar waith

"Mae parcio bob amser yn gymaint o broblem y tu allan i ysgolion, felly mae defnyddio'r cynllun Parcio a Cherdded yn ffordd wych o leihau tagfeydd a risgiau yn uniongyrchol y tu allan i gatiau'r ysgol, yn ogystal ag annog teuluoedd i wneud eu camau bob dydd. Hyrwyddodd ein cyngor ysgol y safle i blant a rhieni, ac roedden nhw o'r farn bod y daith gerdded fer i'r ysgol yn bleserus ac yn fanteisiol."

Paula Coplin, Dirprwy Bennaeth – Ysgol Babanod Overdale, Caerlŷr



Dysgwch ragor yn
**LIVINGSTREETS.ORG.UK/PARKANDSTRIDE**

# Cysylltwch â ni

**Eisiau strydoedd mwy diogel a glanach a chymunedau hapusach ac iachach? Cysylltwch i weld sut gallwn ni helpu:**

walktoschool@livingstreets.org.uk

Cadwch mewn cysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Facebook: LIVINGSTREETSUK
- Instagram: LIVINGSTREETS
- Bluesky: LIVINGSTREETS
- LinkedIn: LIVINGSTREETS

Mentrau wedi'u cymeradwyo gan Modeshift STARS

**Ni yw Living Streets, elusen y DU dros gerdded bob dydd.**

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif. 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban), Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru'r Cwmni 5368409.